

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

Y Bil Addysg Uwch (Cymru)

Awst 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
Blog: pigion.wordpress.com

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 14/1847
Rhif dogfen:14 /037

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

Y Bil Addysg Uwch (Cymru)

Awst 2014

Anne Thomas, Helen Jones ac Alys Thomas

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r Bil Addysg Uwch (Cymru) sydd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd.

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Cefndir	2
2.1.	Darpariaethau deddfwriaethol presennol	2
2.2.	Cyd-destun polisi	3
2.2.1.	Er Mwyn Ein Dyfodol.....	3
2.2.2.	Grŵp Gorchwyl a Gorffen McCormick.....	4
2.2.3.	Datganiad Polisi ar Addysg Uwch, Mehefin 2013	4
2.3.	Ymgynghori	4
2.3.1.	Papur Gwyn y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru), Gorffennaf 2012	4
2.3.2.	Y Bil Addysg Uwch (Cymru): Ymgynghoriad technegol	5
2.3.3.	Ymgysylltu ychwanegol	5
3.	Y Bil Addysg Uwch (Cymru)	6
3.1.	Trosolwg o'r Bil	6
3.1.1.	Rhan 1 - Cyflwyniad	7
3.1.2.	Rhan 2 - Cynlluniau Ffioedd a Mynediad	7
3.1.3.	Rhan 3 Ansawdd yr Addysg	7
3.1.4.	Rhan 4 - Materion Ariannol Sefydliadau Rheoleiddiedig	7
3.1.5.	Rhan 5 - Cynlluniau Ffioedd a Mynediad: Tynnu Cymeradwyaeth Yn Ôl etc.	8
3.1.6.	Rhan 6 - Hysbysiadau a chyfarwyddydau a roddir gan CCAUC	8
3.1.7.	Rhan 7 - Swyddogaethau atodol CCAUC	8
3.1.8.	Rhan 8 - Cyffredinol	9
4.	Goblygiadau ariannol y Bil	10
5.	Ymateb i'r Bil	11

Y Bil Addysg Uwch (Cymru)

1. Cyflwyniad

Dyddiad cyflwyno: 19 Mai 2014

Yr Aelod sy'n gyfrifol: Huw Lewis AC, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Y Pwyllgor sy'n craffu ar Gyfnod 1 y Bil: Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Y terfyn amser ar gyfer adrodd ar Gyfnod 1: 3 Hydref 2014

Mae'r *Bil Addysg Uwch (Cymru)* yn ceisio deddfu er mwyn:

- sicrhau trefn reoleiddio gadarn a chymesur ar gyfer sefydliadau yng Nghymru y mae eu cyrsiau'n cael eu cefnogi gan grantiau a benthyciadau addysg uwch Llywodraeth Cymru;
- diogelu'r cyfraniad at les y cyhoedd sy'n deillio o gymhorthdal ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch;
- cynnal ffocws cryf ar fynediad teg at addysg uwch;
- gwarchod a diogelu annibyniaeth a rhyddid academiaidd prifysgolion.

Mae'r Bil yn ceisio cyflawni'r amcanion hyn drwy:

- sefydlu fframwaith rheoleiddiol newydd sy'n berthnasol i bob darparwr addysg uwch yng Nghymru sydd am i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr;
- sicrhau nad yw'r rheolaethau newydd yn dibynnu ar Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i ddarparu cyllid i'r sefydliadau a'r darparwyr hynny;
- ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr addysg uwch sy'n elwa ar gymhorthdal ariannol Llywodraeth Cymru ar ffurf benthyciadau neu grantiau statudol ar gyfer ffioedd myfyrwyr gael statws elusennol;
- ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch, y mae eu cyrsiau'n cael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr, ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal o ran mynediad at addysg uwch;
- adeiladu, hyd y gellir gwneud hynny, ar y system bresennol o reolaethau a sefydlwyd gan CCAUC o dan ei delerau ac amodau cyllido.

2. Cefndir

Bydd y *Bil Addysg Uwch (Cymru)* yn gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith rheoleiddio diwygiedig ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Bydd yn cyflawni hyn drwy roi'r swyddogaethau angenrheidiol i CCAUC er mwyn iddo allu:

- sicrhau ansawdd darpariaeth addysg uwch;
- gorfodi rheolaethau ffioedd dysgu a'r gofynion o ran cynlluniau ffioedd;
- sefydlu fframwaith ar gyfer trefnu a rheoli materion ariannol darparwyr addysg uwch yng Nghymru y mae eu cyrsiau'n cael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr.

Mae rheoleiddio addysg uwch a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd drwy gymhwyso a gorfodi telerau ac amodau sydd ynghlwm wrth grantiau addysgu a grantiau eraill a ddyrennir gan CCAUC i sefydliadau¹. Mae sancsiynau am beidio â chydymffurfio â thelerau ac amodau yn dibynnu i raddau helaeth ar CCAUC yn atal (neu'n bygwth atal) cyllid grant.

2.1. *Darpariaethau deddfwriaethol presennol*

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth yn y *Bil Addysg Uwch (Cymru)* o dan Ran 4 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae darpariaethau perthnasol *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* wedi'u nodi yn adran 108 ac Atodlen 7. Mae paragraff 5 yn Rhan 1 o Atodlen 7 yn nodi'r pynciau y gall y Cynulliad ddeddfu arnynt, gan gynnwys: Addysg a Hyfforddiant.

Bydd y Bil yn diwygio, yn diddymu ac yn disodli rhai o swyddogaethau presennol CCAUC. Sefydlwyd CCAUC, sy'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, o dan ddarpariaethau *Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (Deddf 1992)*. Ei brif rôl hyd yma fu gweinyddu'r cronfeydd a ryddheir gan Weinidogion Cymru ac eraill at ddibenion darparu cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau sy'n gymwys i gael cyllid o dan adran 65 o *Ddeddf 1992* ac adran 86 o *Ddeddf Addysg 2005*. Mae'r gweithgareddau hyn yn ymwneud yn bennaf â darparu addysg uwch, hyfforddiant i athrawon a gweithgareddau eraill sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ond maent hefyd yn cynnwys rhai cyrsiau AU a ddarperir gan sefydliadau AB yng Nghymru.

¹ W08/36HE Memorandwm Ariannol a Chod Ymarfer Archwilio Diwygiedig CCAUC, 2008. www.hefcw.ac.uk/working_with_he_providers/institutional_assurance/institutional_assurance_cy.aspx [Fel ar 27 Mehefin 2014]

Caiff swyddogaethau presennol CCAUC eu hamlinellu'n bennaf yn Rhan 2 ac Atodlen 1 o Ddeddf 1992 a Rhan 3 o *Ddeddf Addysg 2005*.

- Yn ogystal, mae gan CCAUC swyddogaethau o dan Ran 2 o *Ddeddf Addysg Uwch 2004* sy'n ymwneud â gorfodi a chymeradwyo cynlluniau ffioedd;
- Mae gan CCAUC ddyletswydd statudol o dan adran 70 o Ddeddf 1992 i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer asesu ansawdd yr addysg a ddarperir mewn sefydliadau y maent yn darparu cymorth ariannol ar gyfer eu gweithgareddau neu y maent yn ystyried darparu cymorth o'r fath iddynt. Mae CCAUC yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer addysg uwch ('QAA');
- Mae *Deddf Addysg Uwch 2004* yn amlinellu'r dull ar gyfer rheoli ffioedd dysgu yng Nghymru.

Cyrsiau rhan-amser

Nid yw'r ffioedd ar gyfer cyrsiau rhan-amser yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd yng Nghymru ac felly nid yw cyrsiau o'r fath yn amodol ar ofynion cynllun ffioedd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r fframwaith rheoleiddio diwygiedig wedi cael ei gynllunio i ddarparu ar gyfer cyrsiau rhan-amser *yn y dyfodol*, yn amodol ar gyflwyno rheoliad ffioedd. Am y tro, ni fydd angen i unrhyw sefydliadau neu ddarparwyr AU yng Nghymru sydd ond yn cynnig cyrsiau rhan-amser gael ffi a chynllun mynediad er mwyn i'w cyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr.

Cwmpas tiriogaethol

Mae'r Bil hwn yn berthnasol i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud cais am Orchymyn o dan Adran 150 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* mewn perthynas â rheoleiddio cyrsiau a ddarperir yn Lloegr gan sefydliadau o Gymru.

2.2. Cyd-destun polisi

Mae rhai o'r dogfennau allweddol sy'n berthnasol i ddatblygiad polisi addysg uwch yng Nghymru fel a ganlyn:

2.2.1. Er Mwyn Ein Dyfodol

Cyhoeddodd Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau [*Er Mwyn Ein Dyfodol - Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr Unfed Ganrif ar Hugain*](#) ym mis Tachwedd 2009. Roedd hyn yn disodli'r strategaeth [*Ymgeisio yn Uwch*](#). Amlinellodd *Er Mwyn Ein Dyfodol* batrwm o berthynas newydd rhwng prifysgolion, CCAUC a Llywodraeth Cymru a strategaeth ranbarthol a oedd, i ryw raddau, yn sail ar gyfer ad-drefnu'r sector.

2.2.2. Grŵp Gorchwyl a Gorffen McCormick

Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd grŵp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol, dan gadeiryddiaeth John McCormick, ei adroddiad ar lywodraethu addysg uwch yng Nghymru: [*Cyflawniad ac Atebolrwydd: Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Lywodraethu Addysg Uwch yng Nghymru, Mawrth 2011*](#). Ymhlith pethau eraill, argymhellodd ei adroddiad y dylid creu corff rheoleiddio a chyllido newydd 'hyd braich' a chanddo bwerau newydd: *Prifysgolion Cymru*.

2.2.3. Datganiad Polisi ar Addysg Uwch, Mehefin 2013

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei [*Datganiad Polisi ar Addysg Uwch*](#) gan ddweud ei bod yn ceisio creu gweledigaeth newydd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru tan 2020 gydag argymhellion ynglŷn â sut i gynllunio yn awr ar gyfer dyfodol mwy anrhagweladwy, gan gynnwys: modelau newydd posibl ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth; y potensial ar gyfer dysgu digidol ar-lein; symudiad posibl i brifysgolion mwy arbenigol; ffyrdd newydd o ddarparu addysg uwch ran-amser; dod o hyd i ffyrdd newydd o gefnogi astudiaethau ôl-raddedig, er enghraifft drwy dreialu nifer fach o raglenni gradd israddedig cywasgedig dwy flynedd a gradd Meistr yn y drydedd flwyddyn wedi'i hariannu drwy'r system cymorth i fyfyrwyr statudol; a nodi ffynonellau newydd o gyllid hirdymor.

2.3. Ymgynghori

2.3.1. Papur Gwyn y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru), Gorffennaf 2012

Cyhoeddodd Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar 2 Gorffennaf 2012 ar y cynigion ar gyfer y *Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)* . Gwahoddodd y Papur Gwyn sylwadau ar y cynigion ar gyfer y Bil ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru: [*Papur Gwyn y Bil Addysg Bellach ac Uwch, Gorffennaf 2012*](#):

Roedd y Papur Gwyn yn ymgynghori ar gynigion a oedd yn cynnwys:

- trefniadau newydd ar gyfer cyllido a darparu cymorth i fyfyrwyr;
- gweithgareddau partneriaeth a gweithgareddau ar y cyd cefnogol;
- sicrhau a gwella ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch;
- cryfhau llais y dysgwr;
- trefniadau mynediad; a
- gweithdrefnau datrys anghydfod.

Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion Papur Gwyn ar 6 Mawrth 2013.

Dywedodd Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, yn y Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig cysylltiedig y byddai rhagor o waith

dadansoddi a datblygu yn cael ei wneud ar y cynigion addysg uwch gan nodi ei fwriad i geisio'r darpariaethau deddfwriaethol angenrheidiol yn ddiweddarach yn ystod y tymor Cynulliad hwn: [Crynodeb Llywodraeth Cymru o'r Ymatebion i'r Papur Gwyn - Bil Addysg Bellach ac Uwch \(Cymru\), Gorffennaf 2013:](#)

2.3.2. Y Bil Addysg Uwch (Cymru): Ymgynghoriad technegol

Cyhoeddwyd [Bil Addysg Uwch Cymru: Ymgynghoriad technegol](#) ar 20 Mai 2013 a daeth i ben ar 29 Gorffennaf 2013. Roedd hyn yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad y Papur Gwyn a'r darpariaethau a geisir yn y Bil. Roedd hefyd yn gwahodd sylwadau ar sut y dylai'r system reoleiddio ddiwygiedig weithredu, gan gynnwys:

- Cyflwyno dull diwygiedig ar gyfer dynodi cyrsiau AU at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr;
- Trefniadau ar gyfer gorfodi'r cap ar ffioedd dysgu a chynlluniau ffioedd;
- Trefniadau ar gyfer asesu ansawdd darpariaeth addysg uwch;
- Sicrwydd ariannol a sicrwydd o ran llywodraethu.

2.3.3. Ymgysylltu ychwanegol

Noda'r Memorandwm Esboniadol:

- yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, cynhaliwyd trafodaethau cyson â CCAUC ar y materion a nodwyd yn y Papur Gwyn a'r ymgynghoriad technegol;
- Mae swyddogion hefyd wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Addysg Uwch Cymru, Colegau Cymru, y Brifysgol Agored yng Nghymru ac Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, drwy gynnal cyfres o drafodaethau cyn cwblhau'r Ymgynghoriad Technegol;
- Ymgysylltwyd ag Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau Llywodraeth y DU ac â Swyddfa Cymru er mwyn rhoi sylw i nifer o faterion trawsffiniol a fyddai'n codi pe bai'r newidiadau arfaethedig yn digwydd. Y swyddogion polisi roddodd gychwyn ar y broses ymgysylltu hon a oedd yn cydreddeg â'r ymgynghoriad technegol.

3. Y Bil Addysg Uwch (Cymru)

3.1. *Trosolwg o'r Bil*

Mae wyth Rhan i'r Bil sy'n cynnwys 57 o adrannau ac un Atodlen.

Bydd yn caniatáu i sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch ac sy'n elusen wneud cais i CCAUC am gymeradwyaeth i **gynllun ffioedd a mynediad**. Mae'r Bil yn ymdrin â chynnwys cynllun ffioedd a mynediad gan gynnwys terfyn ffioedd ar gyfer cyrsiau sydd i'w rhagnodi mewn rheoliadau.

Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC **fonitro cydymffurfedd sefydliadau** â'u cynlluniau ffioedd a mynediad a monitro effeithiolrwydd y cynlluniau. Bydd y Bil hefyd yn rhoi swyddogaethau i CCAUC y caiff eu harfer pan fo wedi ei fodloni bod sefydliad rheoleiddiedig wedi methu â chydymffurfio â therfyn ffioedd yn ei gynllun ffioedd a mynediad.

Bydd yn rhoi swyddogaethau i CCAUC yn ymwneud ag **asesu ansawdd yr addysg** a ddarperir yng Nghymru gan neu ar ran sefydliad a reoleiddir ac mewn perthynas â'r camau y gall CCAUC eu cymryd os yw'n fodlon bod ansawdd yr addysg yn annigonol neu'n debygol o fod yn annigonol.

Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC **Iunio a chyhoeddi cod rheolaeth ariannol** a fydd yn gymwys i sefydliadau rheoleiddiedig. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC fonitro, neu wneud trefniadau ar gyfer monitro, cydymffurfedd sefydliadau â gofynion y Cod. Bydd y Bil hefyd yn rhoi swyddogaethau i CCAUC y caiff eu harfer pan fo wedi'i fodloni bod sefydliad rheoleiddiedig wedi methu, neu'n debyg o fethu, â chydymffurfio a gofyniad yn y Cod.

Bydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau pan gaiff CCAUC **wrthod cymeradwyo** cynllun ffioedd a mynediad newydd ar gyfer sefydliad a'r amgylchiadau pan fo rhaid i CCAUC, neu pan gaiff CCAUC, dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad.

Bydd yn gwneud **darpariaeth ar gyfer y gweithdrefnau** i'w dilyn gan CCAUC mewn perthynas â'r camau y caniateir iddo eu cymryd mewn perthynas â sefydliadau rheoleiddiedig, gan gynnwys rhoi hysbysiadau rhybuddio a gallu sefydliadau i wneud cais am adolygiadau.

Bydd yn rhoi swyddogaethau i CCAUC mewn perthynas â **darparu adroddiadau i Weinidogion Cymru a darparu gwybodaeth a chyingor** gan CCAUC.

Bydd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddfau eraill, gan gynnwys *Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992* a *Deddf Addysg Uwch 2004*.

Disgrifir pob Rhan ac Adran yn fanylach:

3.1.1. Rhan 1 - Cyflwyniad

Mae'r Rhan hon yn cynnwys trosolwg o'r Bil ac yn disgrifio ei gynnwys (Adran 1).

3.1.2. Rhan 2 - Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

Mae Rhan 2 yn ymdrin ag:

- (a) Cynnwys cynllun ffioedd a mynediad, gan gynnwys:
 - Ceisiadau gan sefydliadau ar gyfer cymeradwyaeth CCAUC ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad (Adran 2);
 - Y Cyfnod y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef (Adran 4);
 - Terfyn ffioedd (Adran 5);
 - Hybu cyfle cyfartal ac addysg uwch (Adran 6);
 - Ceisiadau gan sefydliadau ar gyfer cymeradwyaeth CCAUC ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad (Adran 2);
 - Cyhoeddi ac amrywio cynllun a gymeradwywyd (Adrannau 8 a 9);
 - Terfynau ar ffioedd myfyrwyr (Adran 10);
 - Cyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu (Adrannau 11 a 12);
- (b) Methiant i gydymffurfio â therfyn ffi mewn cynllun ffioedd a mynediad (Adran 13);
- (c) Dilysrwydd y contractau penodol (Adran 14);
- (d) Monitro cynlluniau ffioedd a mynediad (Adran 15) a dyletswydd i gydweithredu (Adran 16).

3.1.3. Rhan 3 Ansawdd yr Addysg

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran y sefydliadau sydd â chynllun ffioedd a mynediad, gan gynnwys darpariaeth ynghylch:

- (a) pwerau sydd ar gael at ddibenion asesu (Adran 17);
 - (b) y camau y gellir eu cymryd gan CCAUC mewn perthynas ag addysg o ansawdd annigonol (Adrannau 18 i 20);
- Mae adran 21 yn darparu dyletswydd i gydweithredu ag asesiad ansawdd; Mae adrannau 22 i 24 yn ymdrin â manylion asesu ansawdd, gan gynnwys y pwerau mynediad ac arolygu, canllawiau a meini prawf; Mae adran 25 yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC sefydlu Pwyllgor i'w gynghori ar arfer swyddogaethau asesu ansawdd.

3.1.4. Rhan 4 - Materion Ariannol Sefydliadau Rheoleiddiedig

Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran y sefydliadau sydd â chynllun ffioedd a mynediad, gan gynnwys darpariaeth ynghylch:

- (a) dyletswydd CCAUC i lunio a chyhoeddi Cod (Adran 27);
- (b) Y weithdrefn ar gyfer cymeradwyo Cod (Adrannau 28-29);

- (c) Y pwerau sydd ar gael at ddibenion monitro cydymffurfedd â'r cod (Adran 30), ac yn achos methiant i gydymffurfio â'r cod (Adrannau 31-33);
- (ch) Mae Adran 34 yn cynnwys dyletswydd i gydweithredu;
- (d) Mae adran 35 yn ymdrin â rheolaeth ariannol: pwerau mynd i mewn ac arolygu.

3.1.5. Rhan 5 - Cynlluniau Ffioedd a Mynediad: Tynnu Cymeradwyaeth Yn Ôl etc.

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau lle:

- (a) y caiff CCAUC wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd ar gyfer sefydliad; Gan gynnwys Hysbysiad ynghylch gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd (Adran 36);
- (b) mae'n rhaid i CCAUC, neu caiff CCAUC, dynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad sefydliad yn ôl gan gynnwys:
 - Adran 37: Dyletswydd i dynnu cymeradwyaeth yn ôl;
 - Adran 38: Pŵer i dynnu cymeradwyaeth yn ôl;
 - Adran 39: Cyhoeddi etc hysbysiad o dan Ran 5.

3.1.6. Rhan 6 - Hysbysiadau a chyfarwyddydau a roddir gan CCAUC

Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth weithdrefnol ynghylch hysbysiadau a chyfarwyddydau a roddir gan CCAUC (gan gynnwys darpariaeth ynghylch yr adolygiad o hysbysiadau a chyfarwyddydau penodol):

- Mae adrannau 40 i 43 yn pennu'r gweithdrefnau hysbysiadau rhybuddio ac adolygu sy'n berthnasol i roi hysbysiad;
- Mae adrannau 44 a 45 yn ymdrin â Chyfarwyddydau: cydymffurfio a gorfodi.

3.1.7. Rhan 7 - Swyddogaethau atodol CCAUC

Mae Rhan 7 yn gwneud darpariaeth ynghylch rhai o swyddogaethau atodol CCAUC, yn ymwneud â chanllawiau, adroddiadau, gwybodaeth a chynngor, gan gynnwys:

- Adran 46: Dyletswydd i ystyried canllawiau Gweinidogion Cymru;
- Adran 47: Adroddiadau blynyddol;
- Adran 48: Adroddiadau arbennig;
- Adran 49: Datganiad mewn cysylltiad â swyddogaethau ymyrryd;
- Adran 50: Gwybodaeth a chynngor sydd i'w rhoi gan CCAUC i Weinidogion Cymru;
- Adran 51: Gwybodaeth a chynngor arall.

3.1.8. Rhan 8 - Cyffredinol

Mae Rhan 8 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol, gan gynnwys darpariaeth ynghylch arfer pwerau i wneud rheoliadau a dehongli termau a ddefnyddir yn y Bil, gan gynnwys:

Rheoliadau a Chyfarwyddydau (Adrannau 52 a 53);

Darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc (Adran 55);

Cychwyn (Adran 56);

Teitl byr etc. (Adran 57).

Atodlen

Mae Rhan 1 o'r Atodlen (paragraffau 1 i 26) yn rhestru'r deddfiadau hynny y gwneir diwygiadau canlyniadol iddynt. Un o effeithiau Rhan 1 o'r Atodlen fydd diddymu darpariaethau *Deddf Addysg Uwch 2004* yn ymwneud â chynlluniau ffioedd i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru.

Mae Rhan 2 o'r Atodlen (paragraffau 27 i 31) yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau trosiannol.

4. Goblygiadau ariannol y Bil

Ceir Asesiad Effaith Rheoleiddiol manwl yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyflwyno costau'r ddau opsiwn a ystyrir:

- Opsiwn 1: Gwneud dim byd - cadw'r trefniadau presennol;
- Opsiwn 2: Diwygio swyddogaethau CCAUC i'w gwneud yn bosibl rheoleiddio'n effeithiol a gweithredu cynigion polisi ychwanegol, strategol bwysig
- **Opsiwn 3: Diwygio swyddogaethau CCAUC i'w gwneud yn bosibl rheoleiddio'n effeithiol**

Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffeirir gan Lywodraeth Cymru, gan ei bod yn credu bod hyn yn darparu fframwaith rheoleiddiol effeithiol ar gyfer y sector Addysg Uwch ac mae'r gost ychwanegol yn is o gymharu ag Opsiwn 2.

Mae Atodiad A yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn esbonio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo costau Opsiwn 2 ac Opsiwn 3. Nododd Llywodraeth Cymru a CCAUC restr o dasgau presennol ac ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Bil ac yna dyrannu nifer y dyddiau sydd eu hangen i gwblhau pob tasg a gradd yr aelod o staff sy'n cwblhau'r dasg.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhannu'r costau'n **gostau rheolaidd, costau ychwanegol** a **chostau eithriadol** ac mae hefyd yn cynnal dadansoddiad sensitifrwydd i gynhyrchu ystod o amcangyfrifon o'r costau rhwng 2015/16 a 2019/20.

Amcangyfrifir bod cyfanswm cost y Bil (Opsiwn 3) dros bum mlynedd cyntaf ei weithrediad oddeutu £9m.

Tabl 1: Tabl cryno o gyfanswm y costau Opsiynau 1, 2 a 3

	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	Total
Option 1	1,109,000	1,303,000	1,303,000	1,321,000	1,303,000	6,339,000
Option 2	3,055,000	3,280,000	3,061,000	3,135,000	3,200,000	15,731,000
Option 3 (the Bill)	1,666,000	1,853,000	1,800,000	1,814,000	1,841,000	8,974,000

Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Bil Addysg Uwch \(Cymru\) - Memorandwm Esboniadol](#), 19 Mai 2014, Tabl 1, Tabl 2 a Thabl 5

5. Ymateb i'r Bil

Gwnaeth y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Bil, Huw Lewis AC [ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn](#) ar 20 Mai 2012. Meddai:

O fis Medi 2014, bydd tair carfan o fyfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau yng Nghymru y gellid codi ffioedd dysgu uwch arnynt na'r rhai yr arferid eu caniatáu o dan y drefn flaenorol. Mae'r newid o ran cyllido oddi wrth grantiau sefydliadol CCAUC i incwm sy'n deillio o ffioedd dysgu myfyrwyr yn golygu nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â chyllid a rheoleiddio addysg uwch yn addas at y diben. Mae'r Bil hwn yn darparu ar gyfer system reoleiddio ddiwygiedig sy'n berthnasol i bob sefydliad yng Nghymru sydd â chynllun ffioedd a mynediad, fel y'i cymeradwywyd gan CCAUC. Bydd y Bil yn sicrhau rheoleiddio cadarn a chymesur ar sefydliadau yng Nghymru y mae eu cyrsiau'n cael cymorth grantiau a benthyciadau addysg uwch a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, bydd yn diogelu'r cyfraniad a wneir i les y cyhoedd yn deillio o gymhorthdal ariannol sylweddol Llywodraeth Cymru i addysg uwch, yn cadw pwyslais cryf ar fynediad teg at addysg uwch, ac yn cadw ac yn diogelu annibyniaeth sefydliadol a rhyddid academaidd ein prifysgolion.

Mae'r Bil wedi ei gynllunio i alluogi CCAUC i arfer rheolaethau rheoleiddio priodol a chymesur heb ddibynnu ar ddarparu cymorth ariannol. Ar y cyd â'r Bil, y bwriad yw y bydd y cyrsiau addysg uwch sy'n cael eu cynnig gan sefydliadau sydd â chynlluniau ffioedd a mynediad mewn grym yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. Bydd sefydliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r gofynion rheoleiddio a sefydlir gan y Bil. Bydd y rheolaethau rheoleiddio yn diogelu buddiannau myfyrwyr, trethdalwyr a chymdeithas Cymru yn well ac yn helpu i ddiogelu enw da sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn y DU ac yn rhyngwladol.

Meddai Suzy Davies AC, gan siarad ar ran y Ceidwadwyr Cymreig:

Nid wyf yn credu bod angen trafod y gwahanol safbwyntiau ar gymorthdaliadau ffioedd Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru, ble bynnag y byddant yn dewis astudio yn y DU. Fodd bynnag, mae'r datganiad heddiw yn derbyn i bob pwrpas y bu goblygiadau i CCAUC—yr arian sydd ar gael iddo a lefel y dylanwad y gall ei arfer drwy fod ganddo lai o allu i wneud y dyraniadau cyllid i sefydliadau addysg uwch yr oeddent yn eu cael o'r blaen

Gofynnodd hefyd i'r Gweinidog beth oedd y cysylltiad rhwng y Bil ag [Adolygiad Diamond o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru](#).

Atebodd y Gweinidog drwy ddweud:

Mae'n hollol iawn i ddweud bod gorgyffwrdd pwysig o bosibl rhwng y ddeddfwriaeth hon ac adolygiad Diamond. Fodd bynnag, nid wyf yn rhagweld bod angen i hanfodion y ddeddfwriaeth hon aros yn unrhyw fodd am adroddiad adolygiad Diamond. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn caniatáu i un broses lywio'r llall, fel y mae hi'n ei ddweud yn gwbl briodol, a byddai hynny'n llywio'r math hwnnw o ddeialog rhwng yr Athro Ian Diamond, y sefydliadau, Llywodraeth Cymru ac eraill, a fydd yn bwysig wrth inni symud ymlaen drwy gamau nesaf y ddeddfwriaeth hon.

Gan ymateb ar ran Plaid Cymru, dywedodd Simon Thomas AC:

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'n wir bod natur cyllido prifysgolion wedi newid yn sylweddol ers cyflwyno ffioedd a ffioedd dysgu ychwanegol. Rwy'n cytuno, felly, â'r Llywodraeth fod angen eglurder yn y maes hwn. Nid ydym felly yn gwrthwynebu'r Bil mewn egwyddor, neu Bil mewn egwyddor, ond mae cwestiynau sylfaenol yr hoffwn eu codi yn awr gyda'r Gweinidog. Rwy'n defnyddio 'prifysgolion' fel llaw fer ar gyfer effaith y Bil ar bob math o sefydliad sy'n darparu addysg o'r fath.

Yn gyntaf, rwy'n chwilio yn y Bil am yr egwyddor bod rheolaeth gyhoeddus yn dilyn arian cyhoeddus. Mae'n wir bod arian cyhoeddus yn cael ei ddarparu mewn sawl ffordd wahanol erbyn hyn. Mae grant uniongyrchol; mae ffioedd—arian Llywodraeth Cymru tuag at ffioedd; ac fe allech chi ddadlau bod benthyciadau myfyrwyr yn arian cyhoeddus hefyd, oherwydd ei fod mewn cyd-destun o gefnogaeth gyhoeddus. Yn ogystal â hyn, mae cymhorthdal economaidd Ewropeaidd yn arian cyhoeddus hefyd; er y byddai ambell i brifysgol yn hoffi dadlau ei fod yn gwbl breifat, dim ond iddyn nhw, mae cyd-destun cyhoeddus iddo fe.

Felly, mae hynny i'w ystyried. Fodd bynnag, mae'n wir dweud hefyd fod ardaloedd llwyd yn y cyd-destun hwn. Mae'n ymddangos i mi bod y Bil yn mynd y tu hwnt i arian cyhoeddus, hyd yn oed yn yr ystyr mwyaf eang, ac yn dechrau ymwneud â rheolaeth dros weithgarwch cwbl annibynnol gan brifysgolion. Felly, mae'n codi'r cwestiwn sydd heb gael ei ateb, dydw i ddim yn meddwl, yn natganiad y Gweinidog, o ymwneud y Bil hwn â chyfraith elsuen, oherwydd rydym yn sôn am brifysgolion sy'n elusennau yn y fan hon, a hefyd ddsbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ynglŷn â natur y sefydliadau hyn. Fe fuon ni mewn sefyllfa lle gwnaed i golegau addysg bellach un peth, ac yr oedd yn rhaid i ni ddad-wneud hynny oherwydd yr oedd wedi eu gosod nhw mewn dosbarthiad pur wahanol gan yr ONS. Hoffwn, felly, glywed beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf gan y Llywodraeth wrth drafod gyda'r Comisiwn Elusennau, a'r swyddfa ystadegau, ynglŷn â'r dehongliad hwnnw.

Atebodd y Gweinidog drwy ddweud:

O ran ei sylwadau ynghylch pryderon am statws elusennol ac, wrth gwrs, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, nid wyf yn credu bod unrhyw beth yn y cynigion hyn a fyddai'n bygwth statws elusennol sefydliadau addysg uwch Cymru, ac mae'r Comisiwn Elusennau yn cytuno. Yn amlwg, rydym wedi ymgynghori â'r Comisiwn Elusennau, ac mae wedi rhoi adborth ar ei farn am y ddeddfwriaeth hon. Nid yw'n gweld unrhyw fater neu broblem sy'n gysylltiedig â materion statws elusennol.

O ran y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae honno'n sefyllfa gymhleth, a byddaf am sicrhau—sut mae geirio hyn?—nad ydym o reidrwydd yn dymuno denu diddordeb dwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol o ran y newidiadau hyn. Nid wyf yn credu y byddwn, mewn gwirionedd, ond mae angen inni fod yn ofalus am y materion hynny wrth i'r Bil symud ymlaen trwy ei gamau pwyllgor. Byddwn yn rhybuddio'r sector hefyd i fod yn ofalus o ran yr hyn y gallai ddymuno amdano o ran newidiadau posibl i'r ddeddfwriaeth hon mewn cysylltiad ag agwedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Dyweddodd Aled Roberts AC, ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru:

Mae'r memorandwm esboniadol yn cyfaddef yn yr ymgynghoriad technegol bod mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn credu bod angen i'r Llywodraeth ddod â'r cod drafft gerbron y Cynulliad ar ôl i HEFCW ymgynghori arno, ond nid yw'r Llywodraeth wedi derbyn hynny wrth ddrafftio'r Bil hwn. Felly, pam nad ydych yn fodlon dod â'r cod gerbron, o ystyried ein bod ni fel Cynulliad yn rhoi'r grym i'r Gweinidog, drwy HEFCW yn y sefyllfa honno, ymyrryd mewn prifysgolion, ac a ydych yn barod i gyfaddef bod y grym i ymyrryd uwchlaw materion ariannol yn y prifysgolion? Rwy'n meddwl bod nifer o gwestiynau wedi codi o ran hynny.

Atebodd y Gweinidog drwy ddweud:

O ran y cod a dod ag ef gerbron y Cynulliad, y cod yw dull ymyrraeth CCAUC. Mater i CCAUC, mewn gwirionedd, fyddai gweithredu'r cod.

Ar 20 Mai, 2014, cyhoeddodd Addysg Uwch Cymru [ddatganiad ysgrifenedig ar y Bil Addysg Uwch \(Cymru\)](#) a oedd yn codi nifer o bwyntiau gan gynnwys:

- pryder na ddylid tanseilio atebolrwydd uniongyrchol prifysgolion i fyfyrwyr sy'n talu ffioedd;
- bod y graddau y caiff darpariaethau pwysig eu hepgor o'r Bil yn cael eu pennu gan reoliadau dilynol, yn bennaf drwy'r broses penderfyniad negyddol, yn bryder mawr i brifysgolion ac, yn eu barn hwy, mae hyn yn golygu bod effaith gyffredinol y fframwaith deddfwriaethol anodd ei hasesu;
- mae llawer o'r materion a ddirprwyir i reoliadau yn codi cwestiynau sydd, yn eu barn hwy, yn gallu cael effaith ddifrifol ar brifysgolion gan gynnwys eu statws cyfrifyddu cenedlaethol fel Sefydliadau Dielw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd (NPISH) a statws elusen.

Dyweddodd Amanda Wilkinson, cyfarwyddwr AUC, wrth y [Times Higher Education Supplement](#) oherwydd termau eang y cynlluniau ffioedd, y efallai na fydd y cyfarwydddebau gwario arfaethedig a gyhoeddwyd gan CCAUC o dan y Bil yn gyfyngedig i waith mynediad a gallai fod yn llawer ehangach er bod yr union gwmpas yn "aneglur" ar hyn o bryd.

Croesawodd Stephanie Lloyd, [Llywydd UCM Cymru](#) y ffaith bod y Bil yn cael ei gyflwyno. Meddai:

Credwn ni fod addysg uwch yn nwydd cyhoeddus. Gyda chyfeiriadau polisi llwyr wahanol ar gyfer addysg uwch ar draws y DU, mae'n bwysig fod Cymru'n gwrthod marchnadeiddio addysg ac yn darparu rheoliad cadarn i gyd-fynd â newid mor ddramatig yn nhrefniadau cyllido. Bydd y pwerau y bydd y Mesur hwn yn rhoi i'r cyngor cyllido yn helpu sicrhau bod addysg uwch yng Nghymru yn cyflawni'r hyn sydd angen fwyaf ar fyfyrwyr ac economi Cymru, a bod prifysgolion yn parhau i gynorthwyo'r bobl fwyaf difreintiedig yng Nghymru i gael addysg.

Wrth gwrs, rhaid trin newidiadau o'r fath yn ofalus ac yn sensitif. Teimlwn fod rhaid rhoi rhagor o fanylion ac archwiliad i rannau'r rheoliadau a gynigiwyd sydd, ar hyn o bryd, wedi ei hepgor o'r Mesur. Rydym ni hefyd yn annog Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru yn gryf i ymgynghori â myfyrwyr a'u cynrychiolwyr ynghylch sut bydd y Mesur hwn yn cael effaith ar addysg uwch yng Nghymru. Ond mewn egwyddor, dyma'r cam cywir i warchod buddsoddiad cyhoeddus yn addysg uwch a'r rôl sylfaenol sydd gan addysg uwch yng nghyfiawnder cymdeithasol.